

Clefyd Gwywiad yr Onnen

Mae Gwywiad yr Onnen (*Chalara fraxinea*) wedi bod yn y penawdau ledled y DU. Mae'r clefyd yn haint ffwngaid sy'n effeithio ar goed Ynn ac eisoes wedi achosi cryn dipyn o ddifrod i goed ar dir mawr Ewrop ers iddo ddod i'r amlwg ym 1992.

Mae'r haint *C. fraxinea* fel arfer yn dechrau ar y dail ac yn cynyddu dros amser, â'r gwywo a'r niwed ar y canghennau yn ymddangos yn ystod y tymor tyfu nesaf. Gellir canfod y symptomau ar y dail o fewn dau fis i'r heintiad.



Mae'r ffwng yn lledaenu'n naturiol trwy gynhyrchu sborau sy'n cael eu chwythu ar y gwynt o gyrff sy'n hadu ar ddail heintiedig, a gallai'r clefyd fod wedi cyrraedd Prydain yn yr un modd. Fodd bynnag, gall y clefyd ledaenu trwy ddylanwad dynol megis symud coed ifanc heintiedig i'w defnyddio mewn cynlluniau plannu neu ddail heintiedig yn cael eu symud rhwng safleoedd ar ddillad, anifeiliaid neu beiriannau.

Roedd yr onnen yn bresennol mewn tua 5.5% o goedwigoedd Prydain (130,000 hectar). Amcangyfrifir bod 12 miliwn o goed ynn yn rhagor y tu hwnt i'r coedwigoedd a'r fforestydd. Adlewyrchir y patrwm hwn yng nghoedwigoedd Sir Benfro.

Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y clefyd wedi dod i'r amlwg yn Sir Benfro, ond nid yw hwn yn rheswm dros fod yn ddifater. Mae gwaharddiad ar fewnforio coed ynn ledled y DU ac er nad yw

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyfrol 9 Rhifyn 1
Gwanwyn 2013

Yn y rhifyn hwn

Clefyd Gwywiad yr Onnen Tudalennau 1 & 2
Llwyfan i Walch y Môr yng Nghorsydd Teifi Tudalennau 2 & 3
Gwersyll Addysg Forol 2012 Tudalen 3
Ystlumod Pedol Mwyaf yn Stackpole Tudalennau 3 - 5
Warchodfa Natur West Williamston Tudalennau 5 & 6
Ffwng Bach ond Prin Tudalen 6
Darganfod Pathewod yn Ne Sir Benfro Tudalennau 6 & 7
Cig Tir Comin Sir Benfro Tudalen 7
Morloi Llwyd yr Iwerydd Gwarchodfa Natur Forol Skomer Tudalennau 7 & 8
Bioblitz Stackpole Tudalen 8
Arolwg Adar Bridio 2013 Tudalen 9
Cadwch Cymru'n Daclus, Ymunwch â'r Bartheriaeth! Tudalen 9
Digwyddiadau Tudalen 10



coedwigoedd ar gau i ymwelwyr, gofynnir i'r rheini sy'n ymweld â choedwigoedd am unrhyw reswm gymryd y camau canlynol:

- peidiwch â symud planhigion (coed tân, brigau, dail neu doriadau) o'r goedwig;
- lle bynnag bo'n bosibl, cyn gadael y goedwig, glanhewch bridd, mwd, dail a deunyddiau planhigion eraill oddi ar esgidiau, dillad, cŵn, ceffylau, olwynion a theiars beiciau, coets babanod a cherbydau eraill;
- dilynwch y cyfarwyddiadau ar unrhyw arwyddion.

Y gobaith yw y bydd poblogaethau Ynn sy'n gallu gwrthsefyll y clefyd yn cael eu nodi. Nid oes dim tystiolaeth bod *C. fraxinea* yn gallu effeithio ar rywogaethau coed eraill nac ychwaith yn fygythiad i iechyd dynol nac iechyd anifeiliaid.

Ceir yr wybodaeth a'r cyngor diweddaraf ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth yn <http://www.forestry.gov.uk/website/forestry.nsf/byunique/inf8-8zklv5>.

Os oes gennych y dechnoleg gellir lawrlwytho App ffôn defnyddiol i adnabod y clefyd:

<http://www.ashtag.org/>

Gellir adrodd am achosion tybiedig i'r e-bost plant.health@forestry.gsi.gov.uk

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Llwyfan i Walch y Môr yng Nghorsydd Teifi

Mae gan Gorsydd Teifi, sef gwarchodfa natur a reolir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru yng Ngogledd Sir Benfro, ychwanegiad newydd i'w safle. Mae nyth artiffisial ar gyfer gweilch wedi'i gosod ynghanol y gors i annog cyfleoedd nythu a bridio i walch y môr yn y rhan hon o'r wlad. Y nod yw dyblygu llwyddiant Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Sir Drefaldwyn gyda'i nyth artiffisial yng ngwarchodfa natur Cors Dyfi, a gofnododd ei bâr bridio cyntaf yno yn 2011.

Mae gweilch wedi bod yn ymfudo dros Gymru

ers nifer o flynyddoedd ond dim ond ym mis Mai 2004 y cafwyd hyd i bâr o weilch yn nythu ger Croesor yn Nyffryn Glaslyn a phâr arall ger y Trallwng yng Nghanolbarth Cymru. Hwn oedd y tro cyntaf i'r rhywogaeth gael ei chofnodi'n swyddogol yn bridio yng Nghymru. Ers hynny, mae cofnodion o barau bridio wedi cynyddu. Cafodd y nyth artiffisial yng Nghorsydd Teifi ei gwneud gan wirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, ac mae'n cynnwys nyth 1m o led a grëwyd o frigau a changhennau, â llenwad o fwsogl a dail wedi'u gosod ar faled pren. Yna gosodwyd y paled pren hwn ar bostyn telegraff 35 troedfedd a'i gludo ar dryc a oedd yn dilyn traciau i'w leoliad ar y gors. Defnyddiwyd peiriant cloddio 7 tunnell i godi a gosod y polyn a glymwyd â rhaffau tynhau i waelod y coed helyg oedd o amgylch.

Mae ein hymdrechion wedi darparu safle nythu addas ar gyfer gwalch y môr er rhaid aros i weld os a phryd bydd gwalch y môr yn penderfynu ymgartrefu. Mae popeth yn help a byddai cael pâr sy'n bridio yn



Codi Llwyfan Gwalch y Môr.
Llun: Tommy Evans



ychwanegiad ardderchog i'r warchodfa.

Gellir gweld y nyth o faes parcio'r warchodfa ac o leoliadau eraill ar y safle, yn ymwithio allan uwchben yr helyg ar y gors. Bu gwalch y môr gwrywaidd yn hedfan i fyny ac i lawr afon Teifi yn ystod Gwanwyn 2012 yn chwilio am safle nythu posibl, felly'r gobaith yw pan fyddant yn dechrau ymfudo trwy Gymru eto'r Gwanwyn hwn, efallai bydd pâr yn cael eu denu i ymgartrefu yn y warchodfa. Rhaid croesi bysedd.

Ariannwyd llwyfan gwalch y môr gan Grwpiau Adar Sir Benfro a Cheredigion a changen leol Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt canolbarth Sir Benfro.

Nathan Walton

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

Gwersyll Addysg Forol 2012

Cafodd athrawon ac addysgwyr amgylcheddol Sir Benfro a thu hwnt eu gwahodd i ymuno â'r Gymdeithas Fiolegol y Môr yng Nghanolfan Astudio Fort Field ar benwythnos 16 - 18 Tachwedd 2012. Roedd y penwythnos yn llawn o rwydweithio, ymweliadau safle, archwilio pyllau glan môr a dysgu rhyngweithiol am y Bywyd Morol unigryw sydd wedi cael ei astudio o amgylch Tyrbinau Gwynt oddi ar y lan yn y DU.



Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal rhagor o gyrsiau yn Sir Benfro, cadwch lygad am ragor o wybodaeth ar wefan y Gymdeithas:

www.mba.ac.uk

Gwefan Canolfan Astudio Dale Fort www.field-studies-council.org/centres/dalefort

neu'n nes at adref Gwefan Fforwm Arfordir Sir Benfro:

www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Jodie McGregor

Fforwm Arfordir Sir Benfro

Ystlumod Pedol Mwyaf yn Stackpole

Mae Gwarchodfa Genedlaethol Bywyd Gwyllt Stackpole yn safle llawn amrywiaeth ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth o safleoedd cadwraeth hanesyddol, archeolegol a natur sydd ar y safle. Mae ystlumod yn nodwedd bwysig iawn yma yn Stackpole ac mae deuddeg o un deg saith o rywogaethau ystlumod Prydain wedi'u cofnodi yma. Ymhlith rhain mae dwy rywogaeth o'r ystlum pedol. Mae'r ystlum pedol lleiaf wedi bod yma ers yn gynnar yn yr 20^{fed} ganrif, fodd bynnag ni chafwyd hyd i'r ystlum pedol fwyaf hyd nes i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol brynu'r ystâd ym 1977.

Dim ond pum nyth mamolaeth ar gyfer ystlumod pedol sydd wedi'u cadarnhau ar hyn o bryd yng Nghymru. Roedd tair o'r rhain yn Sir Benfro (ger Trefdraeth, Hwlfordd a




Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 3



Ystlum Pedol Mwyaf

Llun: Paul Culyer



Phenfro) a gyda'i gilydd mae'r rhain gymaint â 15 % o gyfanswm poblogaeth ystlumod pedol y DU. Hwn hefyd yw poblogaeth fwyaf gogledd orllewinol Ewrop.

Mae'r tri safle bridio, a nyth dros dro i'r dwyrain o Benfro (a ddefnyddir gan nifer sylweddol o ystlumod nad ydynt yn bridio yn ystod y gwanwyn a'r hydref), yn cael eu hystyried o bwysigrwydd Ewropeaidd. Mae pob un o'r


nythod yn SoDdGA ac yn ffurfio rhannau pwysig o Ardal Gadwraeth Arbennig "Safleoedd Ystlumod Sir Benfro".

Er mwyn cyrraedd eu hardaloedd bwydo mae'r ystlumod yn defnyddio rhwydwaith eang o goridoriau bwydo wedi'u cysgodi, sy'n cael eu cysylltu â'u nythod trwy lwyni tal a llystyfiant pren arall, gan gynnwys dyffrynnoedd coediog bas hynafol, perthlys a pherthi aeddfed. Nid yw'r ystlumod byth yn bell o gysgod da. Mae'r mwyafrif mwy na thebyg yn bwydo o fewn ychydig fetrau i ymyl cynefinoedd, megis perthi tal neu linellau'r coed, ond maent hefyd yn bwydo ar hyd morlin clogwyni môr Sir Benfro a'r llethrau llystyfiant arfordirol. Mae presenoldeb, strwythur a chyfosodiad cysgod addas ynghyd â'r ardaloedd bwydo posibl a'r ardaloedd sy'n cael eu ffafrio, yn ogystal ag agosrwydd safleoedd nythu i fwydo gyda'r nos, yn cael effaith bwysig ar eu hymddygiad bwydo a chlwydo.

Mae nifer yr oedolion a'r data cynhyrhaeth yn dangos cynnydd graddol yn y niferoedd ers yn hwyr yn y 1990au. Bellach Nyth Stackpole mwy na thebyg yw'r ail nyth famolaeth fwyaf yn y DU. Mae'r gytref yn gwella ers ei phwynt isaf yn 1970au pan

roedd amharu ar nythod a gaeafodd oer yn broblem. Mae'r llwyddiant yma yn Stackpole yn arwydd o'r bartneriaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Diolch i waith nifer o weithwyr ymroddedig dros y blynyddoedd, yn enwedig i Bob ac Annie Haycock, Tom McOwar

GHB Adult counts



a Peter a Maggie Andrews, mae gennym wybodaeth am yr ystlumod a'u hecoleg.

Paul Culyer

Uwch Reolwr Gwarchodfa Cyngor Cefn
Gwald Cymru – Sir Benfro

2012 ar Warchodfa Natur West Williamston

Mae gan Warchodfa Natur West Williamson, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae ganddi laswelltir calchfaen gyda brigiadau creigiog, coedwig, dolydd, morfa heli a blaendraethau. Mae angen monitro a rheoli'r cynefinoedd hyn pan fo'n angenrheidiol.

Ar gribyn y calchfaen, mae 87 rhywogaeth o flodau gwyllt wedi'u nodi. Mae rhai, megis tegeirian y wenynen a chrwynllys yr hydref, yn cael eu monitro'n flynyddol. Roeddem yn falch iawn o ddarganfod 7 tegeirian y gwenyn yn 2012 ar ôl absenoldeb o sawl blwyddyn. Roedd crwynllys yr hydref hefyd yn bresennol.



Gwynllys yr Hydref
Llun Jean Hambly

Yn y tair dŵl roedd dros 68 rhywogaeth o flodau gwyllt ac eithrio porfa. Yn anffodus, mae rhedyn wedi tresbasu yn y cae nesaf at yr afon. Ers 2010 rydym wedi bod yn pwnio'r tyfiant ifanc yn y Gwanwyn ac er ein bod wedi gwneud hyn mor aml â phosibl nid ydym wedi gwneud llawer o argraff. Mae'n amlwg bod yn rhaid i ni naill ai bwnio'r rhedyn yn amlach neu ddefnyddio dull arall o ddinistrio'r rhedyn. Unrhyw awgrymiadau?

Roedd Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro Nathan Walton, wedi parhau i weithredu'r Cynllun Rheoli i goedlannu rhannau dynodedig o'r ddraenen ddu bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod egin ifanc ar gael i'r pili-pala brithribin brown ddodwy ei hwyau. Y cyfrif wyau blynyddol ar hyd y blaendraeth ym mis Rhagfyr 2011 oedd 154. Oherwydd yr haf diflas, ni welwyd y pili-pala brithribin brown yn aml iawn yn ystod 2012 ond gwelodd Nikki Anderson y pili-pala brithribin brown gwrywaidd cyntaf i West Williamson mewn coeden fechan ar ymyl y maes parcio. Gan eu bod yn treulio'u hamser yn y coed, mae'n anodd iawn dod o hyd i'r gwrywod.



Y Fritheg Arian
Llun Jean Hambly

Ni welwyd cymaint o'r pili-pala cyffredin yn ystod yr haf diwethaf. Gwelsom y paun, y fantell goch, y trilliw bach, gweirlöyn y perthi, gweirlöyn brych, glesyn y celyn, gwyn wythiennau gwyrddion, y gwyn mawr, y gwyn



bach, gweirlöyn y ddôl, y fritheg arian a'r fantell garpiog. Ni welwyd y gwibiwr llwyd na gweirlöyn y cloddiau yn 2012 (mae rhai cytrefi ar Gribyn y Calchfaen) ac mae hyn yn peri pryder.

Ar adeg ysgrifennu, mae cyfrif blynyddol wyau'r brithribin brown ar fin cael ei gynnal.

Bydd yn ddiddorol i ddarganfod sut mae'r tywydd anghyffredin yn 2012 wedi effeithio ar nifer yr wyau. Bydd hefyd angen i ni fod yn wylidwrs iawn a gwirio coed ynn am y ffwng gwywo ynn.

Nikki Anderson

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin

Ffwng Bach ond Prin

Cafwyd darganfyddiad mycoleg prin unwaith eto yn ystod ymweliad â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Stackpole.



Bovista limosa
Llun: David Harries

Gwelwyd ffwng bach, bron yn siâp cylch – heb fod llawer mwy na thail cwningen, ac nid yn annhebyg o ran lliw – ar bridd tywodlyd ar galchfaen. Casglwyd y sbesimenau a'u gwirio gan ficrosgopeg gan ddarganfod eu bod yn cyd-fynd â disgrifiad *Bovista limosa* (Bovist Leiaf). Sychwyd y sbesimenau a'u hanfon i Erddi Botaneg Brenhinol Kew, i'w cadw yn ddeunydd cyfeirio.

Anaml iawn y cofnodir y rhywogaeth hon ac mae'n cael ei rhestru yn Rhestr Data Coch Rhywogaeth dan Fygythiad y DU ac mae'n bresennol ar ychydig iawn o safleoedd arfordirol yng Nghymru a gogledd orllewin

Lloegr. Hwn yw'r cofnod cyntaf ar gyfer Sir Benfro ac mae'n ychwanegiad i'r rhestr nodedig o rywogaethau ffwngaidd sydd wedi'u cofnodi hyd yn hyn ar safle Stackpole yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

David Harries

Rhwydwaith Cofnodi Ffyngau Sir Benfro

Darganfod Pathewod yn Ne Sir Benfro



Pathew
Llun: Ecolleg Barcud

Yn dilyn arolwg o nythod pathewod yn ne Sir Benfro yn 2010, gallwn bellach adrodd bod pathewod wedi'u nodi ar safle ger Begeli.

Yn ystod arolwg ecolegol o'r safle ar gyfer cais cynllunio, canfuwyd nifer o gnau collen a oedd yn ymddangos fel pe baent wedi'u hagor gan bathewod. Gan mai hwn oedd o bosibl y cofnod newydd cyntaf am tua 30 milltir, argymhellwyd cael arolwg o'r nythod trwy ddefnyddio tiwbiau er mwyn cadarnhau'r cofnod.

Dosbarthwyd 100 o diwbiau o amgylch y safle yn gynnar ym mis Mehefin, ac er bod nifer o nythod wedi'u darganfod yn ystod gwiriad ym mis Medi, yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfanswm o chwe nyth gan bathewod.

Mae'r cynefin yn gymysgedd o goetir llydanddail â pherthi'n cysylltu oddi ar y safle i gynefin posibl arall y tu hwnt.



Mae pathewod yn rhywogaeth sy'n cael ei Gwarchod gan Ewrop, felly pan maent yn cael eu nodi ar dir datblygu, rhaid cael trwydded arbennig gan Lywodraeth Cymru cyn y gellir parhau â'r caniatâd cynllunio. Yna bydd unrhyw ddatblygiad yn cynnwys datganiad sy'n rhan o'r cynllun i ganiatáu pathewod barhau i ddefnyddio'r safle ar ôl y datblygiad.

Gobeithio mai hwn yw'r cofnod cyntaf o nifer yn ne Sir Benfro!

Sian Williams
Ecoleg Barcud

Cig Tir Comin Sir Benfro

Mae gwartheg Henffordd o East Farm Tretio wedi bod yn pori rhannau o Dir Comin Tretio, Tŷ Ddewi eto'r haf hwn. Pan fyddant yn barod, bydd rhai o'r gwartheg hyn yn dod yn rhan o gynllun Cig Tir Comin Sir Benfro.

(www.pembrokeshireheathlandbeef.co.uk).

Mae hwn yn gynllun lleol, ar gyfer cig eidion o safon uchel sy'n helpu gofalu am gynefin sy'n flaenoriaeth. Mae'r cig eidion ar werth yn *Gwaun Valley Meats*, Letterston. Am archeb i garreg eich drws ledled Sir Benfro a Gorllewin Sir Gaerfyrddin, gallwch hefyd archebu ar-lein yn

Pembrokeshire Produce Direct

(www.pembrokeshireproducedirect.org.uk).

Mae cig eidion Gwartheg Duon Cymreig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn stoc ar hyn o bryd, o'r gwartheg a fu'n pori comin arfordirol Treseissyllt, St Nicholas a Goodhope ger Strumble Head.

Andrew Tuddenham

Warden Ardal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Gogledd a Chanolbarth Sir Benfro



Morloi Llwyd yr Iwerydd Gwarchodfa Natur Forol Skomer

Mae Morloi Llwyd yr Iwerydd yn amrywio'n helaeth o fewn, a thu hwnt i ystod bridio a bwydo'r boblogaeth. Felly dim ond trwy fonitro llwyddiant y bridio y gellir asesu'n realistig y boblogaeth sy'n dibynnu ar Warchodfa Natur Forol Skomer. Mae nifer y morloi bach wedi'u cofnodi yn y Warchodfa trwy ddefnyddio dulliau cyson ers 1993 gan roi cyfres o ddata hir dymor dros 20 mlynedd. Mae niferoedd y morloi bach wedi codi a gostwng dros y blynyddoedd ond wedi aros uwchben 250 ers y tair blynedd diweddar. Yn nodwedd o gynllun rheoli Gwarchodfa Natur Forol Skomer ystyrir bod poblogaeth y morloi'n cael ei gynnal yn ffafriol.



Morlo Bach Llwyd yr Iwerydd
Llun: David Boyle

Mae David Boyle sy'n gweithio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru wedi cael ei gontractio gan Warchodfa Natur Forol Skomer i gwblhau gwaith arolwg ar safleoedd ar Ynys Skomer. Yn ogystal â chofnodi nifer y morloi bach, mae David wedi ehangu'r gwaith ar adnabod y morloi oedolion. Am nifer o flynyddoedd byddai lluniadau o forloi oedolion a chanddynt farciau a chreithiau nodweddiadol yn cael eu cwblhau oherwydd byddai siawns go dda y byddai modd eu hadnabod eto yn y dyfodol. Yn 2001 dechreuwyd tynnu ffotograffau hefyd o'r morloi ac yn 2007 ceisiwyd tynnu ffotograffau o forloi



â morloi bach a theirw dominyddol o gwmpas yr Ynys yn ystod y tymor. Nod y ffotograffau oedd cynyddu nifer y morloi oedd yn bridio y byddai modd eu hadnabod eto a dylai gynyddu ein dealltwriaeth o ffyddlondeb i safleoedd, amledd geni morloi bach a hirhoedledd. Mae'r ffotograffiaeth hon wedi parhau a chafwyd nifer o ganlyniadau diddorol. Gwyddys bod 315 o forloi wedi geni morloi bach ar Skomer yn ystod y pedair blynedd rhwng 2008-2011. Wrth ystyried bod cyfartaledd o 29% o'r morloi sy'n geni heb eu nodi eto mae hwn yn nifer sy'n peri syndod yn enwedig wrth ystyried bod nifer y morloi bach sy'n cael eu geni yn weddol gyson rhwng 150-160 bob blwyddyn. Yn 2011, cafodd ffotograffau eu tynnu o 124 (79%) o forloi sy'n geni, ond dim ond 58 (47%) ohonynt yr ydym yn gwybod eu bod wedi geni ar yr Ynys yn ystod blynnyddoedd blaenorol. Tybiwyd y byddai poblogaeth bridio sefydlog ar Skomer. Mae'r gwir yn profi i fod yn wahanol iawn!

Datblygiad cyffrous arall yw'r cydweithio â Sue Sayer o Grŵp Morloi Cernyw, sydd wedi cadw catalogau helaeth o ffotograffau o'r morloi yng Nghernyw ers 2000. Mae Sue wedi llwyddo i adnabod 20 morlo a dynnwyd eu llun yng Nghernyw a Skomer. Mae'r mwyafrif o'r morloi yn treulio'r tymor bridio ar Skomer, gan ddychwelyd i Gernyw ar gyfer y gaeaf a'r gwanwyn, ond yn diflannu yn ystod yr haf mwy na thebyg i fynd i rywle arall i fwydo cyn y tymor bridio nesaf.

Pryder parhaol yw'r maglau o linellau monoffilament a rhwydi ar y morloi oedolion. Yn 2011, roedd 29 morlo gwahanol a welwyd o gwmpas Skomer yn dangos arwyddion amlwg o gael eu dal mewn rhwydi ar ryw bwynt yn ystod eu bywydau, fel arfer gwelwyd craith ddofn o gwmpas eu gyddfau, weithiau'n dal i gynnwys rhan o'r rhwyd.

Kate Lock

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cynhaliwyd y BioBlitz cyntaf erioed ym mis Gorffennaf 2012 ar Ystâd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Stackpole. Cyfnod dwys o gynnal arolygon biolegol yw BioBlitz mewn ymgais i gofnodi pob rhywogaeth fyw o fewn ardal ac amser dynodedig. Cynhaliwyd BioBlitz Stackpole rhwng 11am ar 21 Gorffennaf hyd 11am ar 22 Gorffennaf ac roedd y cyfnod 24 awr yn llawn o ddigwyddiadau rhad ac am ddim i bobl leol ac ymwelwyr.



Grŵp Dal Mamaliaid yn ystod BioBlitz Stackpole

Roedd y digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn dau leoliad, Canolfan Stackpole oedd y canolbwynt ar gyfer ymchwil daearol gan gynnwys pili-palaod, gwas y neidr, arolygon o'r perthi, ystumod a gwyfynod, dal mamaliaid, gwylio dyfrgwn, crefftau maes a sesiynau casglu porthiant. Roedd Cei Stackpole yn cynnal yr holl ymchwil forol a oedd yn cynnwys rhwydi Sâ, chwilota pyllau glan môr, tra bod y deifwyr chwilio'r môr yn cofnodi'r bywyd morol nepell o'r lan.

Cofnodwyd oddeutu 380 o rywogaethau yn ystod y cyfnod 24 awr, ond rydym yn gobeithio cofnodi llawer rhagor yn ystod BioBlitz Stackpole yn 2013.

Os hoffech ddysgu am y bywyd gwyllt a'r planhigion lleol sydd ar garreg eich drws, yna dewch i'r BioBlitz nesaf yma ym mis Mai.

Rhian Sula

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ystâd Stackpole



Arolwg Adar Bridio 2013

Mae'r Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig yn trefnu arolygon gwirfoddol yn flynyddol er mwyn cael syniad o gyflwr poblogaethau adar yn y DU. Mae'r cynllunio eisoes ar waith ar gyfer arolwg 2013 a chroesawir gwirfoddolwyr. Os hoffech gymryd rhan yn Sir Benfro, cysylltwch â threfnwr yr arolwg adar bridio ar gyfer y Sir, Annie Haycock yn: rushmoor1@tiscali.co.uk neu ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig: <http://www.bto.org/volunteer-surveys>

Ant Rogers

Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro



Deryn Du Ifanc
Llun: Trevor Theobald

Cadwch Cymru'n Daclus, Ymunwch â'r Bartneriaeth!

Croeso cynnes i Cadw Cymru'n Daclus sydd newydd ddod yn aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Mae Cadw Cymru'n Daclus wedi gweithio'n agos iawn am nifer o flynyddoedd â'r Bartneriaeth ar nifer o ddigwyddiadau cymunedol, diwrnodau gwirfoddoli a mynd i'r afael a rhywogaethau ymledol anfforddol yn Sir Benfro.

Mae Cadw Cymru'n Daclus yn elusen amgylcheddol sy'n gweithio i annog gweithredu lleol i ddiogelu a gwella amgylchedd Cymru. Mae'n cefnogi

gwirfoddolwyr i "fabwysiadu" eu hardal leol a chyflawni amrywiaeth eang o welliannau ar raddfa fechan gan gynnwys;

casglu sbwriel a glanhau cynnal a chadw llwybrau clirio rhywogaethau ymledol rheoli twyni tywod gwella mynediad i'r anabl rheoli cynefinoedd a bioamrywiaeth datblygu gerddi cymunedol a rhandiroedd gwelliannau i fynwentydd

Yn ogystal â chynllun yswiriant grwpiau cymunedol, mae Cadw Cymru'n Daclus hefyd yn cynnal cynllun taleb canolfannau garddio lle rhoddir y cyfle i grwpiau cymunedol a sefydlwyd i ymgeisio am hyd at £300 y flwyddyn ar gyfer costau deunyddiau, offer, offer diogelwch a phlanhigion a llwyni brodorol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae Cadw Cymru'n Daclus wedi cynnal "Penwythnos Gwyllt i Gymru" sy'n anelu at wella bioamrywiaeth a helpu pobl i gyflawni prosiectau bychain a fydd o fantais i rywogaethau brodorol a chreu hafanau bywyd gwyllt newydd. Yn 2012, dosbarthwyd oddeutu gwerth £27,000 o dalebau Homebase a thalebau canolfannau garddio ymhlith ymgeiswyr llwyddiannus yng Nghymru. Yn Sir Benfro, roedd nifer o'r prosiectau wedi'u hanelu at 'Rywogaethau Adran 42' (y rheini a ystyriwyd yn bwysig yng Nghymru) yn ogystal â phlannu blodau gwyllt, coed a llwyni i ddenu pili-palaod, gwyfynod a gwenyn.

Am ragor o wybodaeth am Cadw Cymru'n Daclus ewch i www.keepwalestidy.org neu cysylltwch â Mari Williams ar 07824 504816.

Ant Rogers

Partneriaeth Bioamrywiaeth
Sir Benfro



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Ionawr - Ebrill 2013



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
15 Ionawr 19:30 - 21:30	Tagio Adar	Bydd y warden gwirfoddol lleol, John Hayes, yn siarad am ' <i>The Millponds complex & bird ringing on the Upper Pond</i> '	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
19 Ionawr 11:00 - 15:00	Taith gerdded ar hyd morglawdd Aberdaugleddau	Taith gerdded ar hyd y morglawdd allanol. Yn edrych am forilod, pibydd y traeth etc. Cyfarfod am 11am ym maes parcio Parrog.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
21 Ionawr 19:30 - 21:30	Corsydd Teifi a gwarchodfeydd eraill Sir Benfro	Sgwrs gan Nathan Walton, Swyddog Cadwraeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro yng Nghanolfan Gymunedol Parc Furzy, Hwlfordd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
6 Chwefror 19:30 - 21:30	Corsydd Teifi a'r Byfflo Dŵr	Corsydd Teifi a'r Byfflo Dŵr, sgwrs gan Nathan Walton, Swyddog Cadwraeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro. Neuadd yr Eglwys Gatholig, Aberteifi.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
18 Chwefror 19:30 - 21:30	Taith trwy'r Tir Coch	Adar a bywyd gwyllt eraill Tiriogaeth y Gogledd yn Awstralia gan Peter a Rosemary Royle yng Nghanolfan Gymunedol Parc Furzy, Hwlfordd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
19 Chwefror 19:30 - 21:30	Bywyd Morol Gwyllt a Chadwraeth Forol Cymru	Sgwrs gan Dr. Lou Luddington ar ein bywyd gwyllt morol cyfoethog yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
16 Mawrth 10:30 - 13:00	Taith gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir	Taith gerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir o Monkhaven i St. Ishmael. Cyfarfod am 10.30am ym maes parcio eglwys St. Ishmael SM830066. Dewch â thocyn bwyd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
18 Mawrth 19:30 - 21:30	Rheoli Coedwigoedd a'r gyfeir Bioamrywiaeth	Sgwrs gan Matt Ridley, Swyddog Coed Cymru yng Nghanolfan Gymunedol Parc Furzy, Hwlfordd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
19 Mawrth 19:30 - 21:30	- Mynd â ni ar daith	Sgwrs gan Trevor Hallett yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
14 Ebrill 10:30 - 15:30	Taith Gerdded y Gwanwyn yn Nyffryn Gwaun	Taith Gerdded y Gwanwyn yn Nyffryn Gwaun. Cyfarfod ym maes parcio Pont Cilrhedyn SN005348 am 10.30 am. Dewch â phhecyn bwyd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
15 Ebrill 19:30 - 21:30	- Bywyd Gwyllt Ystâd Stackpole	Sgwrs gan Bob Haycock yng Nghanolfan Gymunedol Parc Furzy, Hwlfordd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100
16 Ebrill 19:30 - 21:30	- Parc Cenedlaethol Kruger	Bydd Annie Haycock yn sôn am ei hanturiaethau ym Mharc Cenedlaethol Kruger yng Nghanolfan Gymunedol Parc Furzy, Hwlfordd.	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 01656 724 100



Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tîrfeddianwyr		Cyngor Sir Penfro	
Cyngor Cefn Gwlad Cymru		Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro	
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru		Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	
Undeb Amaethwyr Cymru		Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu	
Y Comisiwn Coedwigaeth		Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru	
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwylt		Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar	
Cadwch Gymru'n Daclys		Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	
 MANOR HOUSE Wildlife Park		 Llywodraeth Cymru Welsh Government	
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru		Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru	
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro			



PEMBROKESHIRE
BIODIVERSITY
PARTNERSHIP

Pembrokeshire Biodiversity Partnership

36 likes · 39 talking about this



Organization

Several organizations work together in Pembrokeshire to protect and enhance biodiversity. Together, they form the Pembrokeshire Biodiversity Partnership.



36

Ymwelwch â ni ar Facebook:
<http://www.facebook.com/PembrokeshireBiodiversity>



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen

